

Cronfa Fynychu'r Gynhadledd Addysgu a Dysgu ynghlŷn â Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Dyddiad: 23 Hydref 2026

Cyfeirnod: Medr/2026/51

At: Cyfarwyddwyr Addysg Awdurdodau Lleol
Phennaeth Coleg Penybont

Ymateb erbyn: 31 Gorffennaf 2027

Rhagor o wybodaeth: BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru

Crynodeb:

Dyraniad untro o **£13,200** i gefnogi buddsoddiad mewn datblygiad proffesiynol ar gyfer staff Dysgu Oedolion yn y Gymuned rhan-amser a/neu a delir fesul awr trwy fynychu'r Gynhadledd Addysgu a Dysgu ynghlŷn â Dysgu Oedolion yn y Gymuned 2026/27.

Cyflwyniad

1. Mae'r cyhoeddiad hwn yn amlinellu dyraniad untro o **£13,200** i gefnogi buddsoddiad mewn datblygiad proffesiynol ar gyfer staff Dysgu Oedolion yn y Gymuned rhan-amser a/neu a delir fesul awr trwy fynychu'r Gynhadledd Addysgu a Dysgu ynglŷn â Dysgu Oedolion yn y Gymuned 2026/27.
2. Bydd hyn yn helpu Medr i gyflawni ei ddyletswydd yn unol ag adran 5 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 i hyrwyddo gwelliant parhaus yn ansawdd addysg drydyddol, gan gynnwys drwy gefnogi galluogrwydd a datblygiad proffesiynol parhaus y gweithlu addysg drydyddol.
3. At ddibenion y cyllid hwn, mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cyfeirio at ddarpariaeth a gyflwynir gan ddarparwyr y dyrannir Grant Dysgu yn y Gymuned (GDG) iddynt. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnig cyfleoedd dysgu rhan-amser o lefel mynediad i Lefel 2 i ddysgwyr 19 oed a hŷn ac fel arfer fe'i cyflwynir mewn lleoliadau cymunedol.
4. Yn unol â pharagraff 57 yn [Medr/2026/16: Buddsoddiad Medr ar gyfer blwyddyn academiaidd 2026/27](#), bydd buddsoddiad CLG ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei ddyrannu i Goleg Penybont, fel ym mlwyddyn academiaidd 2025/26.

Dyraniad

5. Mae cyfanswm o **£13,200** wedi'i ddyrannu'n gyfartal ar draws darparwyr sy'n darparu Dysgu Oedolion yn y Gymuned, fel y nodir yn Nhabl 1.
6. Er bod cyllid Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cael ei ddyrannu gan ddefnyddio fformiwla, mae'r gronfa hon yn cael ei dosbarthu'n gyfartal ar draws darparwyr. Mae hyn yn adlewyrchu ei phwrpas fel ymyriad untro pan fo angen isafswm o adnoddau i alluogi gweithgaredd hyfforddi staff ystyrlon. Mae dull dyrannu cyfartal yn sicrhau cyfle cyson i gymryd rhan ac yn osgoi dyraniadau bach iawn a fyddai'n cyfyngu ar yr effaith, yn enwedig ar gyfer darparwyr llai neu ddarparwyr mewn ardaloedd mwy gwledig.

Tabl 1

Awdurdod lleol	Cyfanswm y dyraniad
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	£600
Coleg Pen-y-bont ar Ogwr	£600
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	£600
Cyngor Caerdydd	£600
Cyngor Sir Caerfyrddin	£600
Cyngor Sir Ceredigion	£600
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	£600

Awdurdod Lleol	Cyfanswm y dyraniad
Cyngor Sir Ddinbych	£600
Cyngor Sir y Fflint	£600
Cyngor Gwynedd	£600
Cyngor Sir Ynys Môn	£600
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	£600
Cyngor Sir Fynwy	£600
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	£600
Cyngor Dinas Casnewydd	£600
Cyngor Sir Penfro	£600
Cyngor Sir Powys	£600
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	£600
Cyngor Abertawe	£600
Cyngor Bro Morgannwg	£600
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	£600
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	£600

Defnyddio cyllid

- Mae'n rhaid i'r cyllid gael ei ddefnyddio i helpu tiwtoriaid rhan-amser a/neu a delir fesul awr i fynychu'r Gynhadledd Addysgu a Dysgu ynglŷn â Dysgu Oedolion yn y Gymuned (dyddiad i'w gadarnhau).
- Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol a Choleg Penybont anfon neges e-bost at BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru erbyn 31 Gorffennaf 2027 os na ellir dyrannu'r cyllid at y dibenion a amlinellir uchod.
- Bydd adhawliadau'n cael eu prosesu erbyn mis Hydref 2027.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government